Children in Wales
Plant yng Nghymru

Adroddiad Blynyddol a Chrynodeb Ariannol

2006/07

Cynnwys

Rhagymadrodd	3
Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)	4
Gweithgareddau a drefnwyd yn ystod 2006/07	5
Datblygu a Chefnogi Rhwydweithiau Cryfion	6
Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth	9
Cynrychiolaeth ac Ymgynghori	12
Polisi, Datblygu Ymarfer ac Ymchwil	15
Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol	17
Cefnogi Mentrau Newydd a Mentrau Presennol	19
Prosiectau a gynhelir gan Plant yng Nghymru	21
Llywodraethu	24
Aelodau Plant yng Nghymru	26
Crynodeb Ariannol 2006/07	28
Gwybodaeth Cysylltu	31

Rhagymadrodd

Plant yng Nghymru yw'r mudiad ambarél cenedlaethol ar gyfer cyrff ac unigolion gwirfoddol, statudol a phroffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yng Nghymru. Ein nod yw hyrwyddo buddiannau'r grwpiau hyn a gweithredu i ddiwallu'u hanghenion. Drwy'r gweithgaredd hwn, yr ydym yn:

- Cyfrannu i wneud y gwaith o weithredu Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn wirionedd yng Nghymru;
- Brwydro dros wasanaethau cynaliadwy o ansawdd a chyfrannau teg i bob plentyn a pherson ifanc;
- Sicrhau bod yna sylw arbennig a thriniaeth ar gyfer plant anghenus a'r sawl sy'n cael eu hymyleiddio;
- Sicrhau bod gan blant a phobl ifanc lais.

Y mae Plant yng Nghymru yn sefydliad gydag aelodaeth ac y mae'n darparu ystod o wasanaethau sydd wedi'u cynllunio i hysbysu aelodau ynglŷn â datblygiadau newydd ac i hwyluso ymatebion ar y cyd. Yr ydym yn Elusen gofrestredig ac yn fudiad anllywodraethol, annibynnol.

Y mae Plant yng Nghymru'n gweithio i ddiwallu'r amcanion a ganlyn:

Amcan: cefnogi a datblygu rhwydweithiau cryfion
Amcan: cynhyrchu a lledaenu gwybodaeth
Amcan: cynrychioli ac ymgynghori ag aelodau
Amcan: polisi a datblygu ymarfer ac ymchwil
Amcan: codi ymwybyddiaeth gyhoeddus, wleidyddol a phroffesiynol
Amcan: cefnogi mentrau newydd a phresennol

Y mae'r adroddiad hwn yn egluro sut y mae'r amcanion hyn wedi'u cyflawni yn ystod 2006/07.

Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (UNCRC)

Y Cytundeb hwn yw un o'r cytundebau ar hawliau dynol sy'n cael ei dderbyn yn fwyaf cyffredinol ac sydd wedi'i fabwysiadu gan y Cenhedloedd Unedig. Y mae'n amlinellu'r hawliau y dylid eu meddu gan yr holl blant drwy'r byd i gyd. Y mae'r Cytundeb yn cydnabod y plentyn fel unigolyn ac y mae'n cydnabod bod anghenion y plentyn yn newid fel y maent yn aeddfedu. Y mae bron pob gwlad yn y byd wedi llofnodi'r Cytundeb ac fe wnaeth y Deyrnas Unedig gadarnhau'r Cytundeb yn 1991.

Y mae'r Cytundeb yn gyfres o hawliau a amlinellir mewn "Erthyglau." Y pedair egwyddor sy'n arwain yw:

- Erthygl 2 – sy'n sicrhau bod y Cytundeb yn berthnasol i bob plentyn heb gamwahaniaethu o unrhyw fath;
- Erthygl 3 – sy'n sicrhau y dylai sefydliadau sy'n ymwneud â phlant weithio o blaid yr hyn sydd er eu budd gorau;
- Erthygl 6 – sy'n ymwneud â hawl plentyn i fywyd;
- Erthygl 12 – sy'n ymwneud â hawl plentyn i fynegi'i farn ar faterion sy'n effeithio arno ef/arni hi.

Yn dilyn cynrychiolaeth oddi wrth Plant yng Nghymru a'n haelodau, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu'n ffurfiol y Cytundeb fel sylfaen egwyddorion ar gyfer ymwneud â phlant yn 2004. Y mae hyn yn golygu bod yn rhaid i holl waith Llywodraeth Cynulliad Cymru mewn perthynas â phlant ddilyn yr egwyddorion hyn.

Detholiad o weithgareddau a drefnwyd yn ystod 2006/07

Ebrill 2006
Hyfforddiant – Cyflwyniad i Weithio gyda Phlant o Dan Oed sydd ar eu Pennau'u Hunain.
Seminar – Teuluoedd a'r Wladwriaeth: Cefnogaeth a chyfrifoldebau dwyffordd.

Mai 2006
Hyfforddiant - Gweithio gyda Rhieni ar gyfer Arweinwyr Grŵp Rhieni.
Cynhadledd – Diogelu Plant.

Mehefin 2006
Ymchwil – Magu Plant heb Gosbi Corfforol, wythnos o ddigwyddiadau yn Llansawel, Castell Nedd Port Talbot.
Digwyddiad Ymgynghori – gydag Aelodau, yn canolbwyntio ar y Wlad sy'n Dysgu 2.

Gorffennaf 2006
Digwyddiad Preswyl – Rhwydwaith Personau Anabl Ieuainc, Glan Llyn, Gogledd Cymru.
Seminar - Cymhwysedd Diwylliannol mewn Cymorth i Deuluoedd.

Awst 2006
Seminar – Darlith yn Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Sir y Fflint.

Medi 2006
Cynhadledd – Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol a Chynhadledd Blynyddol Plant yng Nghymru.
Cynhadledd – Dechrau'n Deg.

Hydref 2006
Cynhadledd -"Rhieni ac Ysgolion – Creu'r Cysylltiad".
Digwyddiad Preswyl - Cyfarfod preswyl Gofalwyr Ieuainc a chyfarfod gydag Eiriolwr dros Ofalwyr.

Tachwedd 2006
Seminarau – Cyfranogaeth Rhieni, Cymorth i Deuluoedd a Chefnogi Rhieni Croenddu a Lleiafrifoedd Ethnig.
Hyfforddiant – Cyflwyniad i Hawliau Plant a Gweithio gyda Thadau.

Rhagfyr 2006
Cyfarfod - Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Cymru.

Ionawr 2007
Hyfforddiant – Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 – Gwarcheidwaeth Arbennig.

Chwefror 2007
Seminar – "Ymlyniad a Pheryglon Rhianta".
Digwyddiad Cyfarwyddo - 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! ar gyfer Aelodau'r Cynulliad yn Y Senedd, Bae Caerdydd.
Seminarau – yng nghynadleddau'r pleidiau gwleidyddol.

Mawrth 2007
Seminarau – Diogelu Plant Cymru.
Lansio'r ymgyrch 'Plant Anabl yn Cyfri Cymru'.

Datblygu a Chefnogi Rhwydweithiau Cryfion

Fe wnaeth Plant yng Nghymru hwyluso ystod eang o rwydweithiau proffesiynol a gynhaliai gyfarfodydd rheolaidd yn ystod 2006/07. Y mae'n rhwydweithiau'n dod ag aelodau at ei gilydd i drafod materion polisi ac ymarfer, i hysbysu hwynt ynglŷn â datblygiadau newydd, i ddatblygu cyd-ymatebion i ymgynghoriadau ac i rannu ymarfer da.

Y mae **Rhwydwaith Pobl sy'n Cyd-deithio ac ar eu Pennau'u Hunain yn Ceisio Lloches** yn cynnwys ystod o weithwyr proffesiynol, gan gynnwys llunwyr polisi o Lywodraeth Cynulliad Cymru, a'i amcanion yw:

- Caniatáu i weithwyr yn y maes hwn rwydweithio a rhannu ymarfer da;
- Cyfrannu i'r gwaith o ddatblygu polisi yn y maes hwn;
- Rhannu penblethau ymarfer a chefnogi'r naill a'r llall gyda datrys problemau;
- Diweddaru gwybodaeth, yn enwedig fel y mae'n ymwneud â'r fframwaith cyfreithiol sy'n newid yn gyson.

Y mae **Rhwydwaith Darparwyr Eiriolaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru gyfan** yn cyfrannu i ac yn cefnogi datblygiad eiriolaeth effeithiol yng Nghymru. Amcanion y Rhwydwaith yw:

- Hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth a strategaethau datblygiadol rhwng sefydliadau;
- Hwyluso datrys problemau a datrys gwrthdaro buddiannau posibl;
- Hyrwyddo Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Plant;
- Cysylltu'r grŵp hwn â materion ehangach yn ymwneud â chyfranogaeth plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Y mae **Grwpiau Cyfnewid Arferion Hawliau Plant yng Ngogledd a De Cymru** wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd yng Ngogledd a De Cymru ers mis Medi 1997. Y mae'r cyfarfodydd yn galluogi ymarferwyr i gyfnewid arbenigedd a gwybodaeth. Y mae gwasanaeth e-gyfarwyddiad ar gyfer y grwpiau hyn yn parhau i gael ei ddefnyddio fel modd o gylchlythyru gwybodaeth a galluogi cyfathrebu rhwng digwyddiadau chwarterol.

'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! – Y mae Plant yng Nghymru'n cydlynu'r ymgyrch hwn yng Nghymru a'i amcanion yw:

- Newid y gyfraith fel bod gan blant yr un amddiffyniad ag oedolion;
- Cynnal ymgyrch addysg gyhoeddus ynglŷn â pham nad yw 'taro' plant yn dderbyniol;
- Darparu gwybodaeth a chyngor ymarferol a chefnogaeth i rieni ynglŷn â ffyrdd eraill heblaw 'taro', a defnyddio ymagweddiad cadarnhaol tuag at fagu plant.

Y mae'r **Grŵp Polisi ar Blant Anabl** yn tynnu ynghyd y bobl hynny sydd â chyfarwyddiad polisi ar anabledd i weithio gyda'i gilydd i amlygu materion a phryderon ynglŷn â gwasanaethau i blant anabl. Y mae'r grŵp yn cysylltu'n agos â chyrff Plant yng Nghymru, sef Fforwm ar Faterion ar gyfer Plant Anabl a Rhwydwaith Personau Anabl Ifanc, i adlewyrchu barnau aelodau'r fforwm ac i sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn cael eu cynnwys.

Y mae'r **Fforwm ar Faterion ar gyfer Plant Anabl** yn grŵp amlasiantaethol sy'n rhannu gwybodaeth ac ymarfer da, ac sy'n lobïo dros faterion yn ymwneud â phlant a phobl ifanc anabl. Y mae'r Fforwm yn cynnal rhaglen o gyfarfodydd ar gyfer grŵp Cymru gyfan a rhai rhanbarthol yng ngogledd, de orllewin a de ddwyrain Cymru.

Y mae'r **Grŵp Cynghorol ar Flynyddoedd Cynnar a Gofal Plant** yn canolbwyntio'n benodol ar anghenion plant o dan wyth oed a'u teuluoedd, ac y mae'n gweithio gydag ystod eang o sefydliadau o bob sector. Nod y grŵp yw codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o anghenion a hawliau holl blant ieuainc a'u teuluoedd a dylanwadu ar bolisi cyhoeddus ac ysgogi newid.

Y mae **Rhwydwaith Dileu Tlodi ymysg Plant Cymru** yn glymblaid o sefydliadau sy'n ymwneud â thlodi ymysg plant. Y mae Grŵp Llywio'n cynnwys cynrychiolwyr o Plant yng Nghymru, Barnardo's Cymru, Achub y Plant Cymru, NCH Cymru, Cymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru, Llinell Plant (ChildLine) Cymru/Wales, Cymunedau sy'n Gofalu, Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru, Fairbridge Cymru, Cyngor ar Bopeth Cymru, Ymddiriedolaeth Frank Buttle, Shelter Cymru a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Y mae Plant yng Nghymru'n cadeirio'r Rhwydwaith ac yn cynnal ei Gydlynydd a'i wefan.

Y mae **Fforwm Tadolaeth Cymru** yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn i gyfnewid ymarfer ac i ddarparu cyfle i aelodau ymateb i ymgynghoriadau, ac i hyrwyddo pwysigrwydd tadau ym mywydau'u plant.

Y mae **Grŵp Polisi Tadolaeth Cymru** yn rhwydwaith amlasiantaethol sy'n cydnabod y rôl bwysig sydd gan dadau o ran magu'u plant. Y mae'r Grŵp yn gweithio mewn partneriaeth â Tadau Uniongyrchol (Fathers Direct) ac y mae ganddo gysylltiadau agos â'r Comisiwn Cyfle Cyfartal a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Y maent yn canolbwyntio ar faterion polisi penodol i bennu'r agenda ar gyfer gwaith yng Nghymru.

Y mae **Fforwm Magu Plant/Parenting Forum** yn rhwydwaith amlasiantaethol o sefydliadau magu plant. Y mae'r Fforwm yn hyrwyddo rhannu ymarfer da, lledaenu gwybodaeth berthnasol, hyfforddiant a safonau o ansawdd, ac y mae'n cyfleu barnau rhieni, gofalwyr a phlant i lunwyr polisi yng Nghymru. Y mae'r Fforwm yn hwyluso llu o ddiwrnodau gweithdai, yn cynnwys rhai a gynhelir mewn partneriaeth â Fforwm Tadolaeth Cymru.

Y mae **Grŵp Llywio Fforwm Magu Plant** yn cyfarfod yn chwarterol i gynllunio'r amserlen o ddigwyddiadau a gweithgareddau. Y mae yna grŵp llywio gweithredol a ddatblygodd gylch gorchwyl newydd.

Y mae **Cyfnewidfa Gofalu am Iechyd**, a gynhelir gan Plant yng Nghymru, yn grŵp amlasiantaethol sydd â'r nod o gynorthwyo i arwain polisi ledled Cymru i hybu iechyd

plant sy'n derbyn gofal. Fe fydd Plant yng Nghymru'n parhau i gynnal y grŵp hwn er bod y prosiect wedi dirwyn i ben.

Y mae **Grŵp Cymorth Mudiadau Gwirfoddol Gogledd Cymru** yn cyfarfod yn chwarterol ac y mae'n cynnwys unigolion a gyflogir gan fudiadau gwirfoddol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Fe ddaw'r grŵp ynghyd er mwyn canfod, rhannu a hyrwyddo ymarfer da a darparu cydgefnogaeth.

Y mae'r **Rhwydwaith Cychwyn Cadarn** wedi'i gefnogi gan Plant yng Nghymru am amryw o flynyddoedd ac y mae'n hwyluso cyfarfodydd rheolaidd o Gydlynwyr Cychwyn Cadarn. Yn ystod y flwyddyn hon, y mae'r Rhwydwaith wedi datblygu i fod yn Rhwydwaith Dechrau'n Deg/Cychwyn Cadarn i adlewyrchu cyfeiriad polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru ac ar gais aelodau.

Y mae'r **Rhwydwaith Personau Ieuainc Anabl** yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru ac wedi'i ddatblygu o'r Hawliau ar Waith, Cyngres Ryngwladol Pobl Anabl Ifanc a gynhaliwyd yn Abertawe ym mis Gorffennaf 2003. Y mae'r rhwydwaith yn dod â grwpiau o bobl anabl ifanc ynghyd o bob cwr o Gymru i drafod materion yn ymwneud â'u hawliau.

Y mae **Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ieuainc** yn cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn ac y mae'n agored i bawb sy'n gweithio gyda gofalwyr ieuainc yng Nghymru. Y mae'r Rhwydwaith yn cynnal tri chyfarfod undydd i rannu materion o bwys, pryderon a datblygu ymarfer da, ac y mae hefyd yn cynnal cyfarfod a digwyddiad hyfforddi deuddydd ym mis Medi bob blwyddyn. Y mae'r Rhwydwaith yn cefnogi gofalwyr ieuainc a all gyflwyno'u barnau i'r Panel Adolygu Strategaeth Gofalwyr.

Datblygiadau newydd

Yn ystod 2006/07, y mae Plant yng Nghymru wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu'r Rhwydweithiau a ganlyn:

Y mae **Rhwydwaith Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru (CYPPiC)** wedi'i ddatblygu gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol (CWVYS). Y mae'n rhoi i gynrychiolwyr o Gynghorau Gwasanaethau Gwirfoddol, sy'n gweithio i gymorth y gwaith o gynnwys y trydydd sector, y cyfle i wella gwybodaeth, y mae'n cynnig cydgefnogaeth a dealltwriaeth ac y mae'n trafod materion er mwyn gwella'u gwaith o fewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc. Y mae'r Rhwydwaith hefyd yn anelu at ddarparu safbwynt cenedlaethol, cyfle ar gyfer cyd-lobïo a hyrwyddo buddion cydgysylltu ar hyd Cymru benbaladr.

Y mae **Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth Cymru** yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru ar ran Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru, corff strategol amlasiantaethol sy'n adeiladu cynhwysedd ar gyfer datblygu cyfranogaeth yng Nghymru. Y mae'r Rhwydwaith yn cefnogi gweithwyr a sefydliadau sydd â diddordeb mewn neu'n weithredol hyrwyddo cyfranogaeth plant a phobl ifanc.

Rhwydweithiau Arfaethedig
Y mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â datblygu Rhwydwaith i ddod â Rheolwyr Canolfannau Plant Integredig yng Nghymru ynghyd, ac y maent hefyd wedi

bod yn gweithio gyda Phrifysgol Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin i ddatblygu Rhwydwaith i gymorth dynion sy'n gweithio yn y proffesiwn gofal plant.

Cynhyrchu a Lledaenu Gwybodaeth

Y mae Plant yng Nghymru wedi cynhyrchu amrywiaeth eang o wybodaeth i gynorthwyo i hysbysu ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'w haelodau. Y mae gwybodaeth a anelir at lunwyr polisi, gweithwyr proffesiynol ac ymarferwyr yn cael ei lledaenu mewn amrywiaeth o fformatau:

Y mae **gwefan Plant yng Nghymru** (www.plantyngnghymru.org.uk) yn darparu ystod o wybodaeth, yn cynnwys:

- Adran *Amdanom Ni*, *Yr Hyn a Wnawn*, a *Meysydd Gwaith* sy'n rhestru'n cyflawniadau, fforymau, rhwydweithiau, ymgyrchoedd, cyrsiau hyfforddi, gwasanaethau ymgynghoriaeth a gwybodaeth gyffredinol am ein strwythur a manylion cysylltu.

- Gwybodaeth polisi, yn cynnwys y newyddion diweddaraf, ymgynghoriadau, dogfennau, deddfwriaeth a thrafodion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

- Adran *Yn Eich Ardal* gyda gwybodaeth am wasanaethau ym mhob un ardal Awdurdod Lleol, megis darparwyr Eiriolaeth yng Nghymru.

- Gwybodaeth i rieni am amrywiol brosiectau, llyfrynnau i'w lawrlwytho a Gwasanaethau Gwybodaeth Plant.

- Adran a gynlluniwyd yn benodol ar gyfer ein *Haelodau* ble y gallant gael at ystod o gyhoeddiadau i aelodau yn unig, yn cynnwys cyfarwyddiadau, ôl-gopïau o'n cylchgrawn a'n hymatebion i ystod o ymgynghoriadau.

- Adran ar *Gytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn* gyda phob un o'r Erthyglau a chysylltiadau i'n gwaith.

Y mae gwefan Plant yng Nghymru hefyd yn cynnal gwefannau eraill ar ran y Rhwydwaith Cynadledda Grŵp Teuluoedd Cymru Gyfan, Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, y Grwpiau Adolygu Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan (AWCPPRG) a'r Rhwydwaith Personau Anabl Ifanc.

Y mae **taflen newyddion Plant yng Nghymru** yn cael ei chyhoeddi'n chwarterol ac y mae'n cynnwys gwybodaeth a newyddion, ein rhestr o ddigwyddiadau, ymgynghoriadau a phroffiliau aelodau newydd. Y mae erthyglau yn ystod 2006/07 wedi cynnwys Dechrau'n Deg, Strategaeth yr Undeb Ewropeaidd ar Hawliau'r Plentyn, Grŵp Monitro'r UNCRC yng Nghymru, Cyfranogaeth Plant yn y broses llunio polisïau, Atal Cosbi Corfforol, Wythnos Gwrth-Fwlio ac Adolygiad Diogelu Plant sy'n Agored i Niwed.

Y mae taflenni newyddion chwarterol hefyd yn cael eu cynhyrchu gan yr Ymgyrch 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable!, Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, a'r Rhwydwaith Personau Anabl Ifanc.

Fe gynhyrchwyd **papurau cyfarwyddo** gan Plant yng Nghymru yn ymwneud â phynciau sy'n cynnwys:

- Seibiannau byrion i blant anabl
- Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn
- Polisi Economaidd Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Deddf Gofal Plant
- Cost Addysg (mewn partneriaeth â Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru).

Yn ychwanegol, y mae papurau cyfarwyddo rheolaidd wedi'u hysgrifennu gan yr ymgyrch 'Sdim Curo Plant!/Children are Unbeatable! a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru i hysbysu'u cefnogwyr am y datblygiadau diweddaraf.

Fe ddarperir **gwasanaeth E-gyfarwyddiadau** yn fisol gan Plant yng Nghymru, yn hysbysu aelodau a thanysgrifwyr am ddatblygiadau polisi, ymgynghoriadau a newyddion oddi wrth y sector. Y mae Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, y Rhwydwaith Ceiswyr Lloches a'r rhwydweithiau Cynadledda Grwpiau Teulu Cymru gyfan hefyd yn cynhyrchu e-gyfarwyddiadau rheolaidd i'w haelodau/cefnogwyr.

Cynadleddau

Fe wnaeth **Cynhadledd Polisi Ymyrraeth Gynnar** ddod ag ystod o arbenigwyr o sefydliadau a darparwyr gwasanaethau o bob cwr o Gymru ac Ewrop i roi cyflwyniad ar agweddau o bolisi, ymchwil ac ymarfer yn gysylltiedig ag ymyrraeth gynnar. Yr oedd siaradwyr yn cynnwys Jane Davidson, AC; Maarit Kuikka o'r Undeb Ganolog er Lles Plant, Y Ffindir; y Dr Sinéad Hanafin o Swyddfa'r Gweinidog dros Blant yn yr Iwerddon; a'r Dr Mike Shooter, CBE - cyn-Lywydd diweddar o Goleg Brenhinol y Seiciatryddion.

Fe wnaeth **Cynhadledd Dechrau'n Deg** ddarparu dealltwriaeth eang i'r sawl sy'n cyflawni'r Rhaglen Dechrau'n Deg yng Nghymru o ymchwil, polisi ac ymarfer cyfredol a materion canlynol yn ymwneud â phlant ieuainc, yn enwedig plant 0-3 blwydd oed, ac o fewn cylch gwaith menter Dechrau'n Deg Llywodraeth Cynulliad Cymru. Yr oedd siaradwyr yn cynnwys John Abraham, Pennaeth y Tîm Rhaglen Plant a Theuluoedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru; Paula Evans, Swyddog Polisi a Swyddog Seneddol, Plant yn yr Alban; y Dr Gina Higginbottom, Prif Gymrawd Ymchwil, Prifysgol Hallam Sheffield; a'r Athro Kathy Sylva, Athro Seicoleg Addysgol, Prifysgol Rhydychen.

Fe wnaeth **Diogelu Plant**, a gynhaliwyd ar y cyd gyda Chymdeithas y Gyfraith, ganolbwyntio ar ddiogelu plant a darparu cyfle i ystyried materion sy'n codi o'r Adolygiad annibynnol o Ddiogelu Plant sy'n Agored i Niwed, a gynhaliwyd yng Nghymru. Fe roes siaradwyr o ystod o ddisgyblaethau drosolwg ar ddatblygiadau cyfredol ledled ystod o faterion polisi ac ymarfer a deddfwriaeth, yn cynnwys cyfraniad sy'n canolbwyntio ar oresgyn camdriniaeth rywiol yn yr oes seiber, a chyfraniadau oddi wrth bobl ifanc.

Fe wnaeth **Rhieni ac Ysgolion – Cynhadledd Creu'r Cysylltiad,** a amserwyd i gyd-daro â'r Wythnos Genedlaethol Rhianta ac Wythnos Dysgu fel Teulu, archwilio perthnasau rhieni/teuluoedd gydag ysgolion, gan roi ystyriaeth i ethnigrwydd, dosbarth a materion rhyw y person, yn cynnwys cyflwyniad gan Ysgol Iau Hawthorn, a enillodd wobr am Ddysgu Teuluol, a lansio canlyniadau Arolwg Cenedlaethol ar berthnasau rhieni gydag ysgolion eu plant. Yr oedd siaradwyr yn cynnwys Jane Davidson, AC; yr Athro Gill Crozier, Pennaeth Ymchwil, Ysgol Addysg a Dysgu Gydol Oes, Prifysgol Sunderland; a Celia Braun, Cydgysylltydd Cynnwys Rhieni, Dysgu ac Addysgu yr Alban.

Seminarau

Fe wnaeth Plant yng Nghymru hwyluso ystod o seminarau yn ystod y flwyddyn hon, yn ymdrin â meysydd megis rhianta, ceiswyr lloches a ffoaduriaid, gwasanaethau i'r anabl a hawliau plant.

Hyfforddiant

Y mae Plant yng Nghymru wedi datblygu ystod o raglenni hyfforddi yn gysylltiedig â gweithio gyda rhieni, gweithio gyda thadau, hawliau plant ac amddiffyn plant. Fe ellir canfod rhagor o fanylion am gynnwys y cwrs ar ein gwefan (www.plantyngnghymru.org.uk).

Cynrychiolaeth ac Ymgynghori

Cynrychiolaeth Aelodau
Y mae Plant yng Nghymru'n cynrychioli'u haelodau ar ystod o weithgorau ac mewn amrywiol gyfarfodydd. Yn ystod 2006/07, yr oeddem yn gysylltiedig â mwy na 40 o gyfarfodydd drwy Gymru i gyd a gafodd eu cynnull gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a sefydliadau eraill. Y mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

- **Grwpiau Llywodraeth Cynulliad Cymru**
  Grŵp Cynghori'r Gweinidog
  Panel Adolygu Strategaeth Gofalwyr
  Fforwm Integreiddio Ffoaduriaid
  Adolygiad Diogelu Plant sy'n Agored i Niwed
  Rhwydwaith Gwrth-fwlio
  Cynllun Gweithredu Rhianta

- **Y Sector Gwirfoddol**
  Bwrdd Rheoli Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (WCVA)
  Bwrdd Ymddiriedolwyr Clybiau Plant Cymru
  Grŵp Llywio Cydlynu Gofal
  Rhwydweithiau Mudiadau Gwirfoddol Gogledd Cymru

- **Amddiffyn Plant**
  Is-Grŵp Gweithdrefnau Pwyllgor Ardal Amddiffyn Plant Cymru Gyfan
  Fforymau Amddiffyn Plant Gogledd a De Cymru

- **Cyfiawnder Ieuenctid**
  Grŵp Gweithredu'r Strategaeth ar Droseddu Ieuenctid Cymru Gyfan
  Grŵp Cynghori Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid Cymru

- **Iechyd**
  Grŵp Cyflawni Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)
  Cyngor Iechyd a Lles

- **Hawliau Plant**
  Consortiwm Cyfranogaeth
  Bwrdd Rheoli Draig Ffynci
  Grŵp Monitro Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn

Cynrychiolaeth y Sector Gwirfoddol
Prif Weithredwr Plant yng Nghymru yw cynrychiolydd y Rhwydwaith Plant a Theuluoedd ar Gyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol (VSPC). Yr ydym wedi sicrhau bod y Rhwydwaith hwn, a materion a godwyd gan aelodau, wedi'u cynrychioli yng nghyfarfodydd Gweinidogol y Sector Gwirfoddol.

Cynrychiolaeth y Deyrnas Unedig
Y mae Plant yng Nghymru yn gysylltiedig â mwy na 12 o grwpiau drwy'r Deyrnas Unedig i gyd, yn cynnwys:

Bwrdd Rheoli Biwro Cenedlaethol y Plant (NCB)
Bwrdd Rheoli'r Sefydliad y Teulu a Rhianta
Cyngor Plant Anabl, NCB
Fforwm Plentyndod Cynnar
Fforwm Tadolaeth y DU
Fforwm Pedair Cenedl Sector Gwirfoddol y Plant
Cynghrair 'Sdim Curo Plant!
Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Blant yn San Steffan
Grŵp Seneddol Hollbleidiol dros Blant sy'n Derbyn Gofal
Ymgyrch dros Gomisiynwyr Hawliau Plant
Fforwm Plant Ffoaduriaid y DU
Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant y DU

Yr ydym hefyd yn gweithio i gynrychioli'n haelodau mewn digwyddiadau Ewropeaidd a rhyngwladol, yn cynnwys:

AISBL Eurochild
Y mae Plant yng Nghymru wedi gweithio gyda'r cyrff ambarél o ystod o wledydd eraill yn Ewrop drwy AISBL Eurochild. Prif Weithredwr Plant yng Nghymru yw'r Llywydd, ac y mae'r sefydliad aelodaeth hwn sydd drwy Ewrop i gyd yng nghanol y gwaith Cynhwysiant Cymdeithasol yn yr Undeb Ewropeaidd, fel yr unig sefydliad a ariannir gan y Comisiwn Ewropeaidd i ymdrin â phlant. Fe fynychwyd eu cynhadledd flynyddol yn 2005, "Safle Plant sydd wedi'u Hallgau'n Gymdeithasol ym mhroses Polisi'r Undeb Ewropeaidd", ym Mrwsel gan Gydlynydd Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru, a leolir yn Plant yng Nghymru, a gyflwynodd achos tlodi ymysg plant yng Nghymru.

Y Fforwm Rhyngwladol Dros Les Plant (IFCW)
Fel Ysgrifennydd Y Fforwm Rhyngwladol Dros Les Plant, fe wnaeth Prif Weithredwr Plant yng Nghymru fynychu'r Cynulliad Cyffredinol blynyddol.

Y mae manylion llawn y gwaith a wnawn i gynrychioli'n haelodau ar gael ar ein gwefan www.childreninwales.org.uk

Ymgynghoriadau
Yn ystod 2006/07, fe wnaeth Plant yng Nghymru weithio ochr yn ochr â'u haelodau i gynhyrchu ymatebion i amryw o ddogfennau ymgynghori. Fe gynhaliwyd tri digwyddiad yng Nghaerdydd, Caerfyrddin a Bangor, ac o ganlyniad fe gyflwynwyd ymatebion i:

- **Bywydau Bodlon**
- **Cymunedau Cefnogol: Strategaeth ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol dros y ddegawd nesaf**
- **Y Wlad sy'n Dysgu 2**
- **Tuag at Fywyd Sefydlog a Dyfodol Gwell**

Fe wnaeth Plant yng Nghymru hefyd ddatblygu ymatebion i ystod o ymgynghoriadau, gydag aelodau o rwydweithiau a fforymau. Y mae enghreifftiau o'r gwaith a wnaed gyda rhwydweithiau yn cynnwys ymatebion i:

- **Gofal Plant wedi'i Gymeradwyo yng Nghartref y Teulu** – a ddatblygwyd gyda chydweithwyr o'r sector blynyddoedd cynnar.
- **Cynllun Cyflawni ar Dlodi Plant Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cynigion ar gyfer Cam 1** – a ddatblygwyd gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- **Blas am Oes** – yr ymatebwyd iddo gan Fforwm Magu Plant a Rhwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru
- **Dyletswydd Cydraddoldeb Rhywiol (Cod Ymarfer drafft)** – a ddatblygwyd gan Tadolaeth Cymru
- **Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol** – a ddatblygwyd gan y Fforwm ar Faterion ar gyfer Pobl Anabl
- **Strategaeth Cynnwys Ffoaduriaid** – a ddatblygwyd gan Rwydwaith y Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches
- **Strategaeth Cludiant** – a ddatblygwyd gan Rwydwaith Dileu Tlodi Plant Cymru.

Am gopïau o'r holl ymatebion i'r ymgynghoriadau, a fyddech cystal â mynd i'n gwefan (www.plantyngnghymru.org.uk).

Polisi, Datblygu Ymarfer ac Ymchwil

Yn 2006/07, fe wnaeth Plant yng Nghymru hyrwyddo polisi a datblygu ymarfer mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys:

- Cyflwyno ystod o seminarau proffesiynol mewn partneriaeth â Chymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain (BASW);
- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol drwy strwythur Cyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol i hyrwyddo ymarfer da;
- Darparu hyfforddiant ar hawliau plant a chynhyrchu pecyn Hawliau Plant i ddarparu fframwaith ar gyfer holl ddigwyddiadau hyfforddi'r dyfodol a ddarperir gan dîm y staff ac Aelodau Cysylltiol;
- Datblygu'r Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth ar ran y Consortiwm Cyfranogaeth;
- Datblygu'r Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc.

Y mae'r wybodaeth ganlynol yn amlygu rhai o'r darnau allweddol o waith a wnaed eleni:

Anabledd
- Datblygu'r Rhwydwaith Pontio ar Waith, ar y cyd â phartneriaid;
- Datblygu a darparu cwrs hyfforddi i staff Arolygiaeth Safonau Gofal Cymru.

Hawliau Plant
- Datblygwyd tair pennod o Adroddiad Monitro Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn;
- Gwnaed ymchwil ar Gyfranogaeth Plant Ieuainc mewn Awdurdodau Lleol;
- 13 o gyrsiau hyfforddi, yn cynnwys Amddiffyn Plant mewn Hawliau Plant, a hyfforddiant yn ymwneud â'r Saith Amcan Craidd ar gyfer Prifysgol Abertawe.

Ethnigrwydd
- Ymchwil ar y cyd a ddatblygwyd gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;
- Cyrsiau hyfforddi ar faterion Lloches a gomisiynwyd gan ddau Awdurdod Lleol.

Amddiffyn Plant
- Y mae gwasanaethau ymgynghori ar amddiffyn plant yn parhau ar gyfer Amgueddfeydd ac Orielau Cenedlaethol Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru;
- Datblygu darn o ymchwil gweithredu o dan y teitl "Cymorth wrth Law".

Tlodi
- Digwyddiad ar y cyd a drefnwyd gyda Sefydliad Joseph Rowntree ynglŷn â chael barnau teuluoedd ynglŷn ag effaith tlodi plant yn eu bywydau;
- Cyfarfodydd rhychwantu i ddatblygu astudiaeth ar raddfa fechan o Natur Wledig ac Allgáu Cymdeithasol, yn benodol ar gyfer cymuned Pen Llŷn, Gogledd Cymru.

Rhianta
- Gweithgareddau'n canolbwyntio ar gyfranogaeth rhieni, yn cynnwys arolwg, seminarau a chyflwyniadau i Rwydweithiau eraill;

- Cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith gyda Rhieni, ac adeiladu cysylltiadau gyda 'Dinas ac Urddau' (*City and Guilds*) a Dysgu Gydol Oes Cymru;
- Gwaith archwiliadol i baratoi ar gyfer darn gwaith yn edrych ar y ddarpariaeth o wasanaethau ar gyfer teuluoedd mewn ardaloedd gwledig. Y mae gan y darn gwaith hwn bedwar amcan allweddol:

    - Adolygu llenyddiaeth sy'n bodoli ar fywyd teuluol yng nghefn gwlad Cymru;
    - Archwilio gweithgareddau cyfredol gan asiantaethau ar gymorth teuluoedd/rhieni – pa wasanaethau a ddarperir; beth yw'r materion trafod a'r pryderon;
    - Amlygu'r prif rwystrau rhag darparu gwasanaethau i deuluoedd mewn ardaloedd gwledig;
    - Nodi enghreifftiau o ymarfer da o ran darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig.

Adroddiad "Rhieni ac Ysgolion: Creu'r Cysylltiad. Archwiliad o'r berthynas rhwng rhieni ac ysgolion yng Nghymru": Y mae'r adroddiad yn rhoi manylion canfyddiadau arolwg meintiol a gynhaliwyd yn 2006 gan Plant yng Nghymru, yn archwilio'r cwestiwn o gynnwys rhieni yn addysg eu plant. Fe wnaeth yr angen am yr ymchwil ddeillio o gydnabyddiaeth gynyddol o'r rôl bwysig sydd gan rieni mewn gwella cyrhaeddiad a gwella ansawdd profiad plant o ysgol. Y mae'r arolwg yn archwilio lefel yr ymgysylltiad sydd gan rieni mewn ysgolion, a'r dulliau cyfredol ac amgenach o gyfathrebu ac ymgynghori. Y mae'r arolwg hefyd yn archwilio barnau rhieni am lywodraethu ysgolion. Yn gydredol â hyn, fe wnaethom ofyn i lywodraethwyr ysgolion am eu barnau ynglŷn â chynnwys rhieni yn yr ysgol. Yn ychwanegol, y mae'r adroddiad yn nodi, ble y bo'n berthnasol, argymhellion posibl.

Blynyddoedd Cynnar
- Datblygwyd a darparwyd gweithdy yng Nghanolfan Plant Integredig Merthyr;
- Datblygu rhwydwaith Canolfannau Plant Integredig;
- Trafodaethau gyda Chonsortiwm ac Uned Cyfranogaeth i ddatblygu is-grŵp 0-10 oed fel rhan o Gonsortiwm Cyfranogaeth.

Plant sy'n Derbyn Gofal
- Fe gynhyrchodd Plant yng Nghymru'r adran 'derbyn gofal' o adroddiad UNCRC;
- Cynhyrchu a chyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau ymarfer da ar gyfer comisiynwyr, darparwyr gwasanaethau, ac ymarferwyr yn gysylltiedig â hybu iechyd plant sy'n derbyn gofal;
- Y mae gwaith datblygu wedi dechrau ar gynhyrchu llawlyfr ar wella addysg plant sy'n derbyn gofal.

Gofalwyr Ieuainc
- Datblygwyd cynnig ar gyfer darn o waith ymchwil i edrych ar effeithiolrwydd pecynnau adnoddau i ofalwyr ieuainc a aeth i ysgolion yn 2005;
- Datblygwyd model o gyfranogaeth gofalwyr ieuainc yn y Panel Adolygu Strategaeth Gofalwyr.

Tadau
- Trafodaethau gyda Phrifysgol Abertawe gyda golwg i weithio mewn partneriaeth i sefydlu Rhwydwaith Cymru Gyfan ar gyfer gweithwyr proffesiynol, sydd wedi'i enwi dros dro yn "Dynion mewn Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar";

- Cyrsiau hyfforddi yn ymwneud â gweithio gyda thadau'n cael eu datblygu a'u darparu.

S'dim Curo Plant!/ Children are Unbeatable!
- Digwyddiadau hyfforddi'n cael eu datblygu a'u darparu i aelodau'r ymgyrch;
- Datblygu deunyddiau ymgyrch addysg i'r cyhoedd.

Codi Ymwybyddiaeth y Cyhoedd a Gweithwyr Proffesiynol

Y mae Plant yng Nghymru wedi gweithio'n ddiflino i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol yn 2006/07. Y mae yna ystod eang o weithgareddau wedi'u cynnal, ac y mae detholiad o'r rhain yn cael eu henghreifftio yma.

Gwaith cyfryngol
Y mae staff Plant yng Nghymru wedi rhoi mwy na 40 o gyfweliadau cyfryngol i deledu a radio, yn lleol ac yn genedlaethol fel ei gilydd, ac i ystod o gyfryngau sy'n argraffu.

Cyflwyniadau
Y mae Plant yng Nghymru wedi rhoi mwy na 25 o gyflwyniadau yn amlinellu'n gwaith ac agweddau penodol o bryder, i amrywiaeth o grwpiau, yn cynnwys:

- Tri chyflwyniad i fyfyrwyr prifysgol ar bolisi Blynyddoedd Cynnar;
- Tri chyflwyniad i sefydliadau sy'n aelodau ar dlodi ymysg plant;
- Pedwar cyflwyniad i weithwyr proffesiynol a llunwyr polisi fel rhan o gynadleddau neu seminarau cenedlaethol;
- Pum cyflwyniad i rwydweithiau proffesiynol fel rhan o ddigwyddiadau rhanbarthol.

Eisteddfod
Fe wnaeth Plant yng Nghymru gynnal stondin yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn Abertawe. Fe wnaethom gynnig ystod o weithgareddau ar gyfer plant ieuainc, tra bod rhieni a gofalwyr wedi'u hannog i gyfranogi yn ein Harolwg yn archwilio'r cwestiwn o gynnwys rhieni yn addysg eu plant. Fe wnaeth yr Arolwg archwilio'r lefel o ymgysylltiad sydd gan rieni ar hyn o bryd mewn ysgol, a dulliau cyfredol ac amgenach o gyfathrebu ac ymgynghori. Yr oedd hefyd yn archwilio barnau rhieni ynglŷn â llywodraethu ysgolion.

Yr oedd gan Plant yng Nghymru hefyd bresenoldeb staff yn Eisteddfod yr Urdd ym mis Mai 2006.

Cyflwyniadau mewn Cynadleddau Gwleidyddol y Pleidiau
Fe wnaeth Plant yng Nghymru gynnal digwyddiadau ymylol yng nghynadleddau'r pleidiau gwleidyddol yng Nghymru.

Yn y digwyddiadau ymylol, fe wnaeth staff Plant yng Nghymru gyflwyno ystod o faterion ac arwain trafodaeth i nodi'r materion perthnasol i'w cynnwys yn y ddogfen, "**Cymru Addas ar gyfer Plant a Phobl Ifanc,**" sy'n herio pleidiau gwleidyddol i roi sylw i'r materion cyffredinol y mae'n haelodau'n credu sydd angen sylw er mwyn gwella bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru.

Cynadleddau ar y Cyd
Fe gynhaliodd Plant yng Nghymru amryw o seminarau a chynadleddau ar y cyd â sefydliadau eraill, yn cynnwys:

- Cynhadledd a drefnwyd gyda Chymdeithas y Gyfraith yn ymwneud â'r Adolygiad Diogelu. Fe wnaethom hwyluso gweithdy ar 'Hawliau Plant mewn Amddiffyn Plant';
- Cynhadledd 'Dechrau'n Deg' a drefnwyd gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Y mae rhai enghreifftiau eraill o'r gwaith yr ydym wedi'i wneud yn y maes hwn yn cynnwys:

- Fe wnaeth Plant yng Nghymru, gan weithio gyda Cyswllt Teulu, Anabledd Dysgu Cymru a Mencap, gynnal seminar polisi ar gyfer aelodau i archwilio'r gefnogaeth ar gyfer datblygu ymgyrch yng Nghymru i godi ymwybyddiaeth o anghenion plant anabl a'u teuluoedd. Fe fydd Plant yng Nghymru hefyd yn aelod allweddol ar fwrdd rheoli Plant Anabl yn Cyfri Cymru.

- Fe wnaeth Plant yng Nghymru hwyluso cyfarfod rhwng y Rhwydwaith Personau Anabl Ieuainc a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru, fel rhan o ddigwyddiad y rhwydwaith ym mis Chwefror, 2007. Fe wnaeth y Comisiynydd Plant Dros Dro fynychu'r cyfarfod ynghyd â'r Pennaeth Cyfathrebiadau. Yr oedd pob un grŵp a fynychodd y rhwydwaith wedi paratoi cyflwyniad i amlinellu'r materion a oedd yn eu pryderu hwynt fel grŵp. Yr oedd pynciau a godwyd yn cynnwys:

    - Pryderon ynglŷn ag addysg, yn cynnwys bwlio, cludiant a gwaharddiadau o weithgareddau ysgol;
    - Mynediad at gludiant cyhoeddus;
    - Cyflogaeth a phrofiadau gwaith.

- Fe wnaeth Plant yng Nghymru gefnogi'n weithredol waith Wythnos y Ffoaduriaid ym mis Mehefin 2006, yn enwedig gyda hyrwyddo materion polisi sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc.

- Fe gynrychiolwyd Plant yng Nghymru ar banel o arbenigwyr yn ystod lansiad drama lloches newydd, a gynhyrchir gan Theatr Iola.

- Fe wnaeth Plant yng Nghymru, yn gweithio gyda 'SCP/CAU!, ddatblygu a chynhyrchu llyfryn ynglŷn â dulliau eraill heblaw taro, a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Cefnogi Mentrau Newydd a Mentrau Presennol

Yn Plant yng Nghymru, yr ydym yn awyddus iawn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu syniadau a phrosiectau newydd, ac yr ydym hefyd yn weithredol gysylltiedig â chefnogi a hyrwyddo ymarfer da ac yn gweithio mewn partneriaeth gyda'n haelodau.

Fe rydd y canlynol rywfaint o enghreifftiau o'r gwaith yr ydym ar hyn o bryd yn gysylltiedig ag ef.

Y mae uwch-staff Plant yng Nghymru yn Ymddiriedolwyr:

- Chwarae Cymru
- ABCD
- Clybiau Plant Cymru Kids Club
- Draig Ffynci
- Eurochild
- Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
- Bwrdd Rheoli Sefydliad Cenedlaethol y Teulu a Rhianta
- Y Fforwm Rhyngwladol dros Les Plant

Y mae staff Plant yng Nghymru yn cefnogi datblygu:

- Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal
- Rhannu'r Gofal Cymru
- Cyswllt Teulu
- Uned Hawliau Plant Castell Nedd Port Talbot

Y mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gweithio gydag aelodau mewn amrywiaeth o ffyrdd, megis:

- Gweithio gyda phartneriaid yn y sector gwirfoddol i gadw golwg ar effaith y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol ar gyfer plant;
- Datblygu rhwydwaith yn canolbwyntio ar Eiriolaeth ar gyfer Plant Anabl;
- Gweithio gyda Chydgysylltwyr Rhwydwaith Rhianta yng Nghaerdydd a Chaerffili, a chefnogi'u cyfraniad i'r Fforwm Magu Plant;
- Cyfrannu i becyn hyfforddi newydd ar Gynadleddau Grŵp Teuluoedd, a lansiwyd ym mis Hydref 2006;
- Datblygu cyfres o bedair seminar ynglŷn â datblygiadau diweddar mewn Amddiffyn Plant, mewn partneriaeth â Chyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru;
- Datblygu seminar ar y cyd gyda Chyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol ynglŷn â datblygiadau diweddar mewn Amddiffyn Plant.

Y mae Plant yng Nghymru wedi bod yn cefnogi'r datblygiadau newydd a ganlyn:

- Gweithio gyda'r Rhwydwaith Gweithwyr Gofalwyr Ieuainc i alluogi gofalwyr ieuainc o bob cwr o Gymru i fwydo'u barnau yn uniongyrchol i'r Panel Adolygu Strategaeth Gofalwyr a'r Eiriolwr dros Ofalwyr. Yr oedd y gwaith yn golygu cynnal pedwar digwyddiad rhanbarthol yn ystod gwyliau'r haf, i baratoi ar gyfer y Rhwydwaith Cymru gyfan, a ddilynwyd gan ddigwyddiad deuddydd ar gyfer gofalwyr ieuainc i'w galluogi hwynt i ddatblygu materion ar gyfer y Panel Adolygu Strategaeth Gofalwyr. Fe wnaeth pedwar o ofalwyr ieuainc wedyn

fynychu cyfarfod y Panel Adolygu i godi'u materion yn uniongyrchol gyda'r Eiriolwr dros Ofalwyr.

- Fe wnaeth y Fforwm Magu Plant gynnal digwyddiad ar Gyfranogaeth Rhieni, yn dilyn cyhoeddi canllaw gan Gynulliad Cymru ar gyfranogaeth rhieni mewn cynllunio.

- Y mae Plant yng Nghymru wedi bod yn gysylltiedig â thrafodaethau cychwynnol gyda Phrifysgol Abertawe a Choleg y Drindod Caerfyrddin, gyda golwg i weithio mewn partneriaeth i sefydlu Rhwydwaith Cymru gyfan ar gyfer gweithwyr proffesiynol, o dan y teitl dros dro o "Dynion mewn Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar".

- Y mae 'SCP!/CAU! wedi bod yn gweithio i ddatblygu ystod o ddeunyddiau i'w cynnwys mewn Pecyn Cymorth gyda Rhianta Cadarnhaol i gefnogi'r sawl sy'n gweithio mewn lleoliadau rhianta.

Cynnal Prosiectau

Y Rhwydwaith Personau Anabl Ieuainc
Y mae Plant yng Nghymru yn cynnal y Rhwydwaith Personau Anabl Ieuainc sy'n amcanu at ddarparu strwythur drwy'r hyn y gall pobl anabl ifanc gael eu cefnogi i chwarae rhan lawn a gweithredol yn y prosesau llunio penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

Nod y Rhwydwaith yw rhoi cyfleoedd i bobl anabl ifanc i:

- Cyfarfod a chael hwyl;
- Deall eu hawliau;
- Codi materion o bryder yn eu bywydau beunyddiol;
- Cael llais gyda llunio penderfyniadau sy'n effeithio arnynt hwy'u hunain a'u cyfoedion;
- Adeiladu'u gallu, drwy gynyddu'u hyder a'u hunan-barch, i ddod yn gyfranogwyr effeithiol yn y broses llunio penderfyniadau.

Y mae gweithgareddau ar y rhyngrwyd wedi cynnwys digwyddiadau preswyl yn Y Bala ym mis Mehefin ac ym Mhenfro ym mis Hydref a mis Chwefror. Fe gynhaliwyd cyfarfodydd Grŵp Llywio, yn cynnwys pobl ifanc, ym misoedd Mehefin, Hydref a Chwefror.

Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth Cymru
Y mae Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth Cymru (PWNW) yn wasanaeth newydd am ddim ar gyfer gweithwyr a sefydliadau sy'n hyrwyddo cyfranogaeth plant a phobl ifanc, neu sydd â diddordeb mewn gwneud hynny yn y dyfodol.

Y mae gwasanaethau'r rhyngrwyd yn cynnwys:

- Cronfa ddata ar-lein ble y gall aelodau ganfod a rhwydweithio gyda gweithwyr cyfranogaeth eraill;
- Y cyfle i weithwyr rannu gwybodaeth am ymarfer da mewn cyfranogaeth, a phrofiadau a syniadau ar gyfer dulliau cyfranogi;
- E-gyfarwyddiadau bob dau fis yn cynnwys newyddion ac ymgynghoriadau parthed cyfranogaeth;
- Y cyfle i aelodau arddangos ymagweddiad, gweithgaredd neu ddigwyddiad cyfranogol y maent wedi bod yn gysylltiedig ag ef.

Y mae Rhwydwaith Gweithwyr Cyfranogaeth Cymru yn cael ei gynnal gan Plant yng Nghymru ar ran Consortiwm Cyfranogaeth Plant a Phobl Ifanc Cymru, corff strategol amlasiantaethol sy'n adeiladu gallu ar gyfer y gwaith o ddatblygu cyfranogaeth yng Nghymru.

Y mae Cydgysylltydd y Rhwydwaith yn gweithio'n agos gyda'r Consortiwm a'r Uned Cyfranogaeth, y gangen o'r Consortiwm sy'n cyflawni, a leolir yn Achub y Plant.

Diogelu Plant Cymru
Fe sefydlwyd Diogelu Plant Cymru yn 1993 ac y mae wedi bod yn gweithio mewn cydweithrediad â CAPT (Ymddiriedolaeth Atal Damweiniau i Blant), CAPIC (Cefnogi Cydweithredu er mwyn Lleihau Damweiniau a Rheoli Anafiadau) a ROSPA (Y Gymdeithas Frenhinol er Atal Damweiniau) yng Nghymru. Y mae yn awr yn gweithredu o oddi fewn i Plant yng Nghymru.

Y mae Diogelu Plant Cymru yn hyrwyddo:

- Atal anafiadau mewn plant;
- Ymchwil ar atal anafiadau;
- Casglu data am anafiadau;
- Cydweithredu gyda sefydliadau eraill yng Nghymru ac yn y Deyrnas Unedig.

Nod Diogelu Plant Cymru yw:

- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cynulliad Cymru i hyrwyddo diogelwch plant;
- Datblygu Grŵp Llywio ar gyfer Cynllun Gweithredu Diogelwch Plant ar gyfer Cymru;
- Darparu adnoddau ar gyfer ymarferwyr yn y maes;
- Cynnwys plant a phobl ifanc;
- Gweithio gyda'r sawl sy'n hyrwyddo diogelwch plant ledled Cymru.

Yn ystod mis Mawrth 2007, fe wnaeth Diogelu Plant Cymru, mewn partneriaeth â Plant yng Nghymru, drefnu cyfres o weithdai yng ngogledd, gorllewin a de-ddwyrain Cymru ynglŷn â Diogelwch Plant. Diben y gweithdai oedd trafod y syniad o gael Cynllun Gweithredu Diogelwch Plant ar gyfer Cymru, yn gyffelyb i'r hyn a ddatblygwyd yn yr Alban ac mewn 17 o wledydd Ewropeaidd eraill.

Fe wahoddwyd gweithwyr proffesiynol sydd â chonsyrn am atal damweiniau plant i ymuno â ni i drafod y meysydd yr oeddynt yn teimlo a ddylai gael blaenoriaeth yng Nghymru. Y materion allweddol a drafodwyd oedd:

- Beth yw'r materion allweddol yn ymwneud ag anafiadau damweiniol?
- Sut y gall gwaith atal damweiniau gael ei ariannu a'i drefnu'n well;
- Polisïau llywodraeth a pholisïau lleol sy'n effeithio ar y gwaith;
- Sut i leihau amrywiadau o ran marwolaethau ac anafiadau rhwng y plant tlotaf a chyfoethocaf;
- Sut i godi proffil y pwnc i fyny'r agenda bolisi. Agenda pwy?

Y mae Cydweithrediad Ymchwil Clinigol (CRC) Cymru yn isadeiledd ymchwil a datblygu newydd i Gymru, a ariannir gan Swyddfa Cymru ar gyfer Ymchwil a Datblygu.

Gorchwyl Cydweithrediad Ymchwil Clinigol Cymru yw darparu isadeiledd ymchwil sy'n gystadleuol yn rhyngwladol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol i wella iechyd a chyfoeth pobl Cymru. Fe wna gyflawni hyn drwy:

- Cynyddu ansawdd a maint gweithgaredd ymchwil yng Nghymru, yn enwedig treialon ar raddfa fawr mewn llawer o ganolfannau;
- Gwella pwerau cynhyrchu incwm y gymuned ymchwil o ffynonellau masnachol ac anfasnachol, fel ei gilydd;
- Caniatáu i Gymru fanteisio ar gyfleoedd a gynigir gan y UKCRC (Cydweithredu ar Ymchwil Glinigol y DU).

Fe wnaeth Plant yng Nghymru gynnig llwyddiannus i gynnal Rhwydwaith Ymchwil Plant a Phobl Ifanc Cymru. Amcanion y Rhwydwaith yw:

- Annog a datblygu pob agwedd o ymchwil er budd plant a phobl ifanc yng Nghymru;
- Darparu cyngor ac arbenigedd mewn gwaith ymchwil gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd;
- Cysylltu ymarferwyr, llunwyr polisi, academyddion a defnyddwyr gwasanaethau;
- Pennu'r agenda ar gyfer blaenoriaethau strategol tymor canolig a hirdymor;
- Hyrwyddo Cymru yng nghymunedau ymchwil y Deyrnas Unedig, Ewrop ac yn Fyd-eang.

Y mae datblygiadau diweddar o fewn y Rhwydwaith wedi cynnwys:

Rhaglen Ymchwil
Y mae gan y Rhwydwaith Ymchwil raglen o brosiectau ymchwil cyfredol ac arfaethedig yr ydym yn credu sy'n feysydd arwyddocaol i Gymru'u datblygu.

Cronfa Ddata Ymchwil
Fel rhan o ddatblygiadau'r Rhwydwaith Ymchwil Plant, yr ydym hefyd yn datblygu cronfa ddata o ymchwil sydd eisoes yn digwydd o amgylch Cymru.

Llywodraethu

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr
Y mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys hyd at 12 o aelodau, yn ymdrin â chyllid a threfn lywodraethu'r sefydliad. Y mae aelodau'n cael eu hethol yn flynyddol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ac y maent yn gwasanaethu am uchafswm o dair blynedd.

Y mae aelodau Bwrdd Ymddiriedolwyr 2006/07 yn cynnwys:

Mike Shooter, CBE, (Cadeirydd)
Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin (Is-gadeirydd)
Tim Brown, Trysorydd
Raymond Ciborowski, Barnardo's Cymru
Mike Greenaway, Chwarae Cymru
Rita Jones, Mudiad Ysgolion Meithrin
Deborah Jones, Lleisiau mewn Gofal (Cymru)
Yr Athro Gareth Morgan, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru
Jo Sibert OBE, Yr Athro Emeritws mewn Iechyd Plant
Yr Athro Nigel Thomas, Prifysgol Cymru Abertawe
Janet Williams, Gwasanaeth Amddiffyn Plant, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (Cymru)

Cyngor Polisi
Y mae gan Plant yng Nghymru Gyngor Polisi sy'n gwneud argymhellion ynglŷn â materion polisi yn ymwneud â phlant a phobl ifanc i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, ond nid oes ganddo swyddogaeth llywodraethu. Y mae'r Cyngor Polisi'n cynnwys 10 o aelodau a benodwyd o flaen llawn o gyrff allweddol, gyda 21 yn rhagor o leoedd etholedig oddi wrth yr aelodaeth, ynghyd â'r Ymddiriedolwyr sy'n dod yn aelodau'n awtomatig.

Y mae swyddogaethau'r Cyngor Polisi yn cynnwys:

- Nodi'r materion, pryderon a blaenoriaethau y dylid eu tynnu at sylw ac y dylid rhoi sylw iddynt gan Plant yng Nghymru;
- Cynghori ar bolisïau, blaenoriaethau a rhaglenni gwaith yn neilltuol i fod yn weithredol gysylltiedig â datblygu ac adolygu cynllun strategol a rhaglen waith Plant yng Nghymru;
- Derbyn cyfarwyddiadau a gwybodaeth oddi wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ac ystyried ceisiadau oddi wrth Fwrdd yr Ymddiriedolwyr a/neu Uwch-Reolwyr i roi sylwadau gwybodus ar faterion neilltuol;
- Bwrw sylwadau ar faterion o dan ystyriaeth gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr;
- Hyrwyddo gwaith Plant yng Nghymru drwy wahanol ddisgyblaethau, sectorau ac ardaloedd i gyd yng Nghymru;
- Datblygu peirianwaith priodol ar gyfer cyfraniad effeithiol gan blant a phobl ifanc i waith Bwrdd yr Ymddiriedolwyr a'r Cyngor Polisi.

Y mae aelodau Cyngor Polisi 2006/07 yn cynnwys:

Pierre Bernhard-Grout, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Darren Bird, Draig Ffynci
Roger Bishop, Tros Gynnal
Pippa Boss, Rhannu'r Gofal Cymru

Sioned Bowen
Tim Brown
Raymond Ciborowski, Barnardo's Cymru
Diane Daniel, Cyngor Dinas Casnewydd
Anne Eccles, Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol
Andrew Edwards, Heddlu Dyfed Powys
Beverlea Frowen, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Mike Greenaway, Chwarae Cymru
Yr Athro John Gregory, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru
Sara Hagen-Vaughan, Cychwyn Cartref Cymru
Wendy Hawkins, Clybiau Plant Cymru
Rita Jones, Mudiad Ysgolion Meithrin
Ieuan Goronwy Jones, Cyngor Sir Caerfyrddin
Deborah Jones, Lleisiau mewn Gofal (Cymru)
Jan Leightley, NCH Cymru
Penny Lloyd, Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol Prydain
Chris Mann, Bwrdd Iechyd Lleol Powys
Maria Michael, Dinas a Sir Caerdydd
Yr Athro Gareth Morgan, Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant yng Nghymru
Richard Parry, Dinas a Sir Abertawe
Phil Reed, Prifysgol Cymru Abertawe
Leighton Rees, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
Sandra Roberts, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru
Mark Roszkowski, Dinas a Sir Abertawe
Y Dr Mike Shooter, CBE
Jo Sibert, OBE
Laurence Smith, Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd Cymru
Mathew Taylor, Lleisiau mewn Gofal (Cymru)
Greta Thomas, Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru
Yr Athro Nigel Thomas, Prifysgol Cymru Abertawe
Keith Towler, Achub y Plant
Jane Tremlett, Cyngor Sir Caerfyrddin
Christine Walby, OBE
Elspeth Webb, Ysbyty Prifysgol Cymru
Janet Williams, Gwasanaeth Amddiffyn Plant, GICC (Cymru)

Aelodau Plant yng Nghymru

Yn ystod 2006/07, yr oedd gan Plant yng Nghymru gyfanswm o 175 o aelodau unigol ac aelodau cyfundrefnol. Yr oeddynt yn cynnwys:

Aelodau Unigol

Mrs Sioned Bowen
Mr Rolf Brown
Mr Elvet Crowe
Ms Samantha Greatbanks
Mr Robin Griffiths
Ms Liz Jones
Ms Janet Owen
Y Dr Mike Shooter
Mr John Llewellyn Thomas
Mrs Ann Williams
Mr John Valentine Willliams
Ms Antonia Bridges
Mr Tim Brown
Ms Marina Edmunds
Ms Helen Gregson-Holmes
Mrs Margaret Hanney MBE
Ms Pauline Lawrence
Ms Ruth Parry
Yr Athro Jo Sibert
Ms Christine Walby OBE
Ms Judith Williams

Aelodau Cyfundrefnol

ABCD
AFASIC Cymru
Achub y Plant
Amy Weir & Associates Cyf
Anabledd Dysgu Cymru
BAAF Cymru
Barnardo's Cymru
BAWSO Cyf
BBC – Plant mewn Angen
Bobath Cymru
Bwrdd Iechyd Lleol Casnewydd
CAFCASS Cymru
CAIR
Canolfan ar gyfer Plant gydag Anableddau Pen-y-bont ar Ogwr
Canolfan Gofal Dydd Tir na n-og, Bangor
Canolfan Plant Integredig Western Vale
Cartref Bontnewydd
Cerrig Camu (Stepping Stones)
Clybiau Plant Cymru Kids' Clubs
Coleg Abertawe
Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant
Coleg Glan Hafren
Coleg Glannau Dyfrdwy
Coleg Pen-y-bont ar Ogwr
Coleg y Drindod
Coleg Ystrad Mynach
ContinYou Cymru
Cronfa'r Loteri Fawr
Cronfa'r Teulu
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell Nedd Port Talbot
Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen
Cyngor Caerdydd
Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol
Cyngor Dinas Casnewydd
Cyngor Ffoaduriaid Cymru
Cyngor Gwasanaeth Gwirfoddol Castell Nedd Port Talbot
Cyngor Gwynedd
Cyngor Sir Caerfyrddin
Cyngor Sir Ceredigion
Cyngor Sir Penfro
Cyngor Sir Ynys Môn
Cychwyn Cartref Cymru
Cyfle Cyntaf/First Opportunity
Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru
Cymdeithas Cynllunio Teulu
Cymdeithas Gweithwyr Cymdeithasol
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent
Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr
Prydain (BASW) Cymru
Cymdeithas Tai Hafan
Cymdeithas Genedlaethol Gwarchodwyr Plant
Cymdeithas Genedlaethol Llyfrgelloedd Teganau a Hamdden
Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd
Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar
Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
Cymdeithas Chwarae Wrecsam
Cymorth i Fenywod Brycheiniog
Cymorth i Fenywod Caerdydd
Cymorth i Fenywod Cymru
Cymorth i Fenywod Dyffryn Lliw
Cymunedau sy'n Gofalu Rainer
Cyswllt Teulu
Chwarae Cymru
DEWIS Cyf
Dinas a Sir Abertawe
Diogelu Plant Cymru
Discovery – Myfyrwyr yn Gwirfoddoli Abertawe
ESIS
Eglwys Bresbyteraidd Cymru
Foundation Housing/Tai Sylfaen Cyf
Ffederasiwn Rhieni Caerdydd a'r Fro
Fforwm Blynyddoedd Cynnar Parc Caia
Fforwm Blynyddoedd Cynnar Wrecsam
Fforwm Plant a Theuluoedd Powys
Fframwaith ar gyfer Partneriaeth Torfaen
Grŵp Bryn Melyn
Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
Gwasanaeth Gofalwyr Powys
Gwasanaethau Cyfiawnder G4S
Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Annibynnol Martin Price
Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd
Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful
Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro
Hen Ysgol Viriamu Jones
Interlink
Law yn Llaw
Lleisiau mewn Gofal (Cymru)
Llwybr Gofal
MENCAP Cymru
Mudiad Ysgolion Meithrin
NCH Cymru
Plant Dewi
Prifysgol Cymru Abertawe
Prifysgol Cymru Bangor
Right from the Start (Caerffili)
Rhagolygon i Bobl Ifanc
Rhannu'r Gofal Cymru
Rhwydwaith Cydgysylltu Gofal y DU
Rhwydwaith Rhieni Caerffili
Rhwydwaith Maethu Cymru
Scope Cwmpas Cymru
Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol y Byddar
Sefydliad Cenedlaethol y Teulu a Rhianta
SNAP Cymru
Social Interface Cyf
Spark Blaenymaes Cyf
Spurgeons
TACT Cymru
Tîm Iechyd Meddwl Sylfaenol Torfaen
Tros Gynnal
Tŷ Hafan
Uned Ymchwil Thomas Coram
Y Comisiwn Etholiadol
Y Gymdeithas Awtistig Genedlaethol
Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant Cymru
Y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg
YMCA Cymru
Ymddiriedolaeth Frank Buttle
Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg
Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro
Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent
Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru
Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro & Derwen
Ymddiriedolaeth GIG Sir Caerfyrddin
Ymgynghoriaeth Gwaith Cymdeithasol Sheila Booth
Ymgynghoriaeth MC
Ysgol a Chanolfan Adnoddau Trinity Fields
Ysgol Babanod Duffryn
Ysgol Syr Thomas Jones

CRYNODEB ARIANNOL 2006/07

DATGANIADAU WEDI'U CRYNHOI: BLWYDDYN ARIANNOL YN GORFFEN 31ain o FAWRTH 2007

INCWM	**£**	**%**
Incwm Gwirfoddol	541,043	81
Gweithgareddau ar gyfer Cynhyrchu Cyllid:		
Hyfforddiant Galwedigaethol	28,632	4
Ymgynghoriaeth	63,057	9
Ffioedd Cynhadledd a Seminar	22,237	3
Rhent a Thaliadau Gwasanaethau	7,339	1
Eraill	9,535	1
Cyfanswm	**671,843**	**100**
Gwariant		
Cost Cynhyrchu Cyllid	67,148	7
Cost Gwariant Elusennol	880,230	92
Costau Llywodraethu	13,677	1
Cyfanswm	**961,055**	**100**
Cynnwys		
Cyfyngedig (diffyg ariannol)/gwarged	118,261	
Anghyfyngedig	8,044	
Cyfanswm	**126,305**	

Yn ystod 2006/07, fe wnaeth Plant yng Nghymru godi'u hincwm drwy gyfrwng ffioedd aelodaeth newydd, cynadleddau, ymgynghoriaeth a hyfforddiant. Y mae cyllid craidd oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn ffynhonnell refeniw sylweddol iawn ac y mae wedi'i ddefnyddio i gyflogi staff ac i weithredu'r rhaglen waith gyda'r costau gweithredol cysylltiedig. Y mae Plant yng Nghymru yn weithredol gynhyrchu incwm i ategu incwm grant, ac fe ddefnyddir yr incwm hwn i ddiwallu amcanion a nodau'r sefydliad.

Y mae'n cyfrifon blynyddol yn cael eu dadansoddi rhwng gweithgareddau Cyfyngedig ac Anghyfyngedig. Y gwarged ar gyllid Cyfyngedig oedd £118,261 a gwarged Anghyfyngedig o £8,044.

Am gopi llawn o'r cyfrifon a archwiliwyd, ysgrifennwch, os gwelwch yn dda, at:

Y Swyddog Cyllid
Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor
Caerdydd CF10 3BZ
finance@childreninwales.org.uk

Gwybodaeth Cysylltu

Prif Swyddfa:

Plant yng Nghymru
25 Plas Winsor
Caerdydd CF10 3BZ
Ffôn: 029 2034 2434
Ffacs: 029 2034 3134

Swyddfa Gogledd Cymru:

Plant yng Nghymru
24-26 Stryd Fawr
Caernarfon LL55 1RH

Ffôn: 01286 677570
Ffacs: 01286 676095

E-bost: info@childreninwales.org.uk
Gwefan: www.plantyngnghymru.org.uk


Incwm
1%
1%
3%
9%
4%
82%
Incwm Gwirfoddol
Hyfforddiant Galwedigaethol
Ymgynghoriaeth
Ffioedd Cynhadleddau a Seminarau
Taliadau Rhent a Gwasanaethau
Eraill


Expenditure
1%
7%
92%
Cost cynhyrchu cyllid
Cost Gwariant Elusennol
Costau Llywodraethu